

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Proses ar gyfer Monitro

Darpariaeth Arweinyddiaeth A Gymeradwywyd

Mae gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol rôl mewn sicrhau ansawdd darpariaeth datblygu arweinyddiaeth. Mae'r broses sicrhau ansawdd yn gwirio a yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i fodloni'r meini prawf llwyddiant fel y nodir yn y Canllaw Cymeradwyo Darpariaeth Arweinyddiaeth.


Y broses sy'n sicrhau bod darparwyr yn parhau i ddarparu darpariaeth ansawdd sy'n parhau i fod yn addas i'r diben ac sy'n parhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau datblygu arweinyddiaeth yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi hyder bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar y dyfodol wrth gryfhau berthynas rhwng yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'r darparwyr eu hunain ar yr un pryd.

Mae'r broses fonitro sicrhau ansawdd, sy'n dechrau gyda phrosesau hunanwerthuso'r darparwr ei hun wedi'i chynllunio i gefnogi darparwyr i adolygu, addasu a gwella eu darpariaeth dros amser.

Amserlen

Disgwylir y bydd pob darparwr yn cynnal gwerthusiadau parhaus o'r holl ddarpariaeth fel rhan o'u **prosesau sicrhau ansawdd mewnol**. Dylid casglu'r gwerthusiadau hyn ar ddiwedd pob cylch o'r rhaglen yn dilyn cymeradwyaeth i ddarparu adroddiad i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf y **Broses Fonitro**.

Model Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cymeradwyaeth



Prosesau Sicrhau Ansawdd Mewnol

Dylai fod gan bob darparwr ei weithdrefnau ei hun ar gyfer sicrhau ansawdd fel y nodir yn y canllawiau cymeradwyo. Os yw'r darparwyr yn gweithio mewn partneriaethau neu gynghreiriau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, yna rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth o lywodraethu'r bartneriaeth neu'r gynghrair yn gryf ac ymagwedd gadarn tuag at reoli risg. Dylid rhannu tystiolaeth o'r prosesau mewnol gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn ystod y Prosesau Monitro fel y nodir isod.

Rhaid i'r adroddiad ansawdd ac effaith y mae'r darparwr yn ei rannu â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gynnwys hunanasesiad o ansawdd ac effaith y ddarpariaeth bresennol gan gynnwys sut mae'r darparwr wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y panel cymeradwyo neu fonitro blaenorol.

Dylai'r adroddiad ansawdd ac effaith hefyd nodi a thystiolaethu dau o'r meini prawf ardystio y mae'r darparwr yn ystyried eu bod o gryfder penodol a dau faen prawf sy'n feysydd i'w datblygu ymhellach. Ni ddylai'r adroddiad ansawdd ac effaith fod yn fwy na thair i bedair ochr A4. Bydd templed yn cael ei ddarparu.

Sicrhau Ansawdd – Proses Monitro

Bydd y broses fonitro yn cael ei rheoli gan y Cyfarwyddwr Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd a'i chefnogi gan Staff, Cymdeithion a Rhanddeiliaid yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Bydd y broses yn cynnwys ystyried:

- Adroddiad Ansawdd ac Effaith y darparwyr (fel y crybwyllwyd uchod) i'w rannu gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gan y darparwr ar ôl pob cylch cyflawni o ddarpariaeth.
- Tystiolaeth ychwanegol y gofynnir amdani gan y panel ar gyfer craffu bwrdd gwaith.
- Gweithgareddau samplu e.e. arsylwadau rhaglen, a sgwrsiau gyda chyfranogwyr os penderfynir gan y panel.
- Sicrwydd Ansawdd sgwrs gyda'r darparwr os penderfynir gan y panel.

Bydd adroddiad byr yn cael ei ysgrifennu yn dilyn y broses Sicrhau Ansawdd allanol a'i rannu gyda'r darparwr. Lle nodwyd arfer effeithiol, bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gwahodd y darparwr i lunio astudiaeth achos i ddatlu a rhannu trwy'r wefan.

MAE'R ACADEMI GENEDLAETHOL AR GYFER ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL YN CADW'R HAWL I ATAL A/NEU GADARNHAU O GANLYNIAD I'R **BRÖSES FONITRO**, OS OES ACHOS DIGONOL.

Fforwm y Darparwyr

Bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol hefyd yn cynnal Fforwm Darparwyr unwaith y bydd o leiaf dair darpariaeth sydd wedi'u cymeradwyo a'u rhedeg am flwyddyn.

Pwrpas y Fforwm

- Adeiladu perthynas gref rhwng yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'r darparwyr
- Darparwyr cymeradwy i gael y cyfle i rannu arfer effeithiol / o ansawdd gyda'i gilydd
- Deialog broffesiynol gyda darparwyr cymeradwy a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ynghylch adeiladu cyfleoedd datblygu a chapasiti yn y dyfodol
- Mae arloesedd, cymhelliant a meddwl creadigol yn cael eu symbylu.

Bydd y fforwm yn cyfrannu at ddatblygu a mireinio'r broses Ardystio a Monitro parhaus.

Model Partneriaeth y Tair Gwlad: Sicrwydd Ansawdd Allanol

Bydd y Broses Ardystio a Monitro ei hun yn sicr o ran ansawdd yn rheolaidd gan staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, darparwyr, grŵp rhanddeiliaid a Chonsortium Arweinyddiaeth y Tair Gwlad trwy Fodel Partneriaeth y Tair Gwlad.

Gweithdrefnau a Phrotocolau

- Cymhelliant i gefnogi a herio mewn ffordd adeiladol a phwrpasol
- Pwrpas moesol y broses yw gwella'r ddarpariaeth arweinyddiaeth (effaith ar ddysgwyr)
- Yn onest, yn gadarn, yn gyson, yn barchus
- Yr holl ganlyniadau sy'n eiddo i wlad gwestywr
- Rhennir gwybodaeth rhwng gwledydd sydd â diwylliant o ymddiriedaeth ac atebolrwydd cydfuddiannol.
- Mae'r wlad sy'n cynnal yn berchen ar yr adroddiad / canlyniadau
- Adlynu Cyfrinachedd

Sicrwydd Ansawdd y Model Partneriaeth

- Templedi y cytunwyd arnynt
- Mae'r wlad sy'n cynnal yn cwblhau gwerthusiad ar ddiwedd y broses
- Arweinydd SA o'r wlad gymorth

